


Sut i gyrraedd yno:

Trafnidiaeth gyhoeddus: Bws gwasanaeth 361 (Dinbych-y-pysgod i Ddoc Penfro), nid yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Eich trafndiaeth eich hun: De Sir Benfro, 4.5 milltir i'r Dwyrain o dref Doc Penfro. Dewch ar gefnffordd yr A477 neu heol yr A4075.



Cyfeirnod grid y man cychwyn: SN046036.

Toiledau: yr ochr arall i'r heol o'r maes parcio.

Sylwer: Mae Castell Cairew ar agor i ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn ac mae Melin Cairew ar agor i ymwelwyr o fis Ebrill i fis Hydref. Mae yna dâl mynediad, ond mae'r llwybrau ar agor ac yn rhad ac am ddim drwy'r flwyddyn.

Pwll y Felin, Cairew

Taith fynediad hwylus: 1.0 milltir (1.6 km).

Cymeriad: llwybrau gwastad gydag arwyneb o amgylch Pwll y Felin, gyda golygfeydd hyfryd o gastell Ganoloesol.



**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park**



Disgrifiad

Mae'r daith yn wastad gan fwyaf, ac ar lonydd a llwybrau ag arwyneb. Nid yw'r graddiannau'n fwy serth nag 1:20, er fel y nodir yn y cyfarwyddiadau, ceir ychydig o raddiannau byr sy'n fwy serth. Byddwch yn ofalus wrth groesi pont heol Cairew.

Pwll y Felin, Cairew yw un o'r lleoliadau harddaf yn Sir Benfro. Ar ddiwrnod llonydd, pan fydd y llanw'n uchel, mae'r dŵr yn adlewyrchu'r castell a'r felin gerllaw yn berffaith. Mae'n denu llawer o adar rhydio ac mae'n lle da i wyllo ystumod ar nosweithiau o Haf.

Adeiladwyd Castell Cairew ar



ddiwedd yr 11eg ganrif gan gwnstabl Castell Penfro, Gerald de Windsor. Mae archeolegwyr wedi dod o hyd i arwyddion o anheddiad o'r Oes Haearn yn agos at y castell yn ogystal â chrochenwaith Rhufeinig.

Mae'r felin gyntaf yng Nghairew'n dyddio o 1542. Fwy na thebyg fod yr adeilad presennol yn dyddio o'r 19eg ganrif gynnar ac fe'i adferwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sydd â'r Castell a'r Felin ar les.

Mae'r daith hefyd yn pasio Croes Geltaidd wedi'i cherfio. Dywedir bod y gofgolofn Gristnogol hon o'r 11eg ganrif yn un o'r tair Groes Geltaidd orau yng Nghymru.

Cyfarwyddiadau

Gadewch y maes parcio trwy'r allanfa ar yr ochr, trowch i'r chwith a dilynwch y lôn darmac. Ychydig bach ar ôl pasio Castell Cairew mae yna raddiant o 1:18 i fyny am 20 metr, ac yna graddiant o 1:8 i lawr am 4 metr. Trowch i'r dde wrth y fforc (1:15 am 13 metr, ac yna 1:20 o raddiant croes am 10 metr) i lawr tuag at y Felin.



Trowch i'r dde a cherddwch heibio i'r Felin. Mae yna bont gyda ramp sy'n 1:12 i fyny a ramp sy'n 1:8 i lawr. Croeswch y cawsai dros yr afon Cairew (ramp i fyny at ail bont yn 1:12) a throwch i'r dde arno i'r llwybr wrth ymyl Pwll y Felin. Ble mae'r llwybr yn mynd i mewn i'r ardal bicnic mae yna raddiant o 1:15 am 7 metr.

Ewch drwy fynedfa'r ardal picnic, ac yna cadwch i'r dde arno i heol sy'n ymlwybro ar hyd ochr y pwll (mae'r graddiant arno i'r heol yn 1:12

i 1:9 am 12 metr). Sylwer bod gan ymyl yr heol raddiant croes o 1:20. Trowch i'r dde (1:15 am 3 metr) a chroeswch bont heol Cairew yn ofalus, gan ddefnyddio'r llwybr sydd wedi'i ddynodi'n arbennig ar gyfer cerddwyr.

Dilynwch y palmant i fyny'r llethr, sydd â graddiant o hyd at 1:20 yn gyffredinol. Mae yna un graddiant croes sy'n 1:13 am 5 metr ar ddechrau'r palmant ac adran fer gyda graddiant o 1:5 yn Bridge Cottage.

Wrth y giatiau agored i Gastell Cairew mae yna raddiant croes a graddiant o 1:6 am 2 metr. Ewch drwy'r fynedfa a dilynwch y llwybr i fyny'r llethr (1:8 am 7 metr, ac yna 1:15 am 36 metr), ac yna trowch i'r chwith yn siarp a dilynwch y llwybr at y maes parcio.



- ALLWEDD**
- Arwyneb caled a llyfn
 - ■ ■ ■ Arwyneb cerrig cywasgedig
 - □ □ □ Arwyneb cerrig mân
 - » Graddiant serth, mwy na 1:12
 - > Graddiant, rhwng 1:20 & 1:12
 - △ Graddiant croes

Melin Lanw

Pwll melin

Castell

Caeriw

Arberth Hwlfordd

Penfro Dinbych-y-pysgod

A4075

Icons: WC, P, P&, bus, wheelchair, tree, building, ramp, triangle, square, dashed line, solid line, arrow.